# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD

## ADRODDIAD I GEISIO PENDERFYNIAD AM YR AMODAU CYNLLUNIO I'W GOSOD YNGHLWM WRTH GAIS CYNLLUNIO Rhif 07/2012/0539

## GOSOD 2 DYRBIN GWYNT MICRO-GYNHYRCHU 50Kw GYDA BLWCH RHEOLI A LLWYBR MYNEDIAD

## SIRIOR, LLANDRILLO CORWEN

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Ceisio penderfyniad gan yr Aelodau am yr amodau cynllunio i'w gosod ynghlwm wrth y Dystysgrif Penderfyniad i gais cynllunio cyf: 07/2012/0539, a gafodd ganiatâd cynllunio yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

### 2. CEFNDIR

2.1. Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio ar 20 Chwefror 2013 roi caniatâd cynllunio amodol ar gyfer codi 2 dyrbin gwynt 50Kw yn Sirior, Llandrillo a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio.

2.2. Er gwybodaeth, mae adroddiad y Swyddog i gyfarfod mis Chwefror yn dilyn yr adroddiad hwn mewn atodiad. Fodd bynnag, nid rhinweddau'r cais sydd dan sylw erbyn hyn, am fod y Pwyllgor wedi penderfynu ar ôl y bleidlais i roi caniatâd y byddai Swyddogion yn drafftio rhestr o amodau i'w cynnwys yn y Dystysgrif Penderfyniad, a rhoi gwybod am y rhain i'r Pwyllgor i'w hystyried a'u cadarnhau.

2.3. Roedd y drafodaeth yng nghyfarfod mis Chwefror yn seiliedig ar yr angen i gefnogi'r economi leol yn gyffredinol ac ystyriwyd y byddai buddion y datblygiad i arallgyfeirio fferm yn Sirior yn gorbwyso'r pryderon am y dirwedd / yr effaith weledol y gallai'r datblygiad ei chael ar yr amgylchedd lleol.

2.4. Cred y Swyddogion fod yr amodau fel y'u drafftiwyd yn Adran 3 o'r adroddiad yn rhai rhesymol ac angenrheidiol mewn perthynas â'r cais, ac maent yn ymdrin â phethau fel adeiladwaith, safle a golwg y tyrbinau, sŵn ac amwynder, tirlunio, rheoli coetir a threfniadau i adfer y safle pan fydd y tyrbinau wedi'u tynnu i lawr. Mae'r amodau a awgrymir hefyd yn gyson ag achosion o ganiatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol gan y Cyngor i gynigion tyrbinau gwynt 50Kw.

2.5. Mae'r ymgeisydd wedi cynnig cyfrannu £1000 y tyrbin y flwyddyn at y Cyngor Cymunedol lleol drwy gydol y caniatâd. Ni ddylanwadodd y cynnig hwn o gwbl ar y broses benderfynu ond mae'n unol â chyngor a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar fater buddion cymunedol mewn perthynas â chynigion felly. Er mwyn sicrhau'r taliad a'r ffordd y caiff ei weinyddu, bydd angen i'r ymgeisydd baratoi Ymgymeriad

Unochrog neu fynd i Gytundeb adran 106 cyn bod unrhyw ganiatâd cynllunio'n cael ei roi.

## 3. AMODAU DRAFFT

3.1. Dyma'r Amodau a awgrymir:

1. Bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael ei ddechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

2. Bydd y caniatâd cynllunio ar gyfer cyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad cynhyrchu'r trydan cyntaf o'r tyrbinau. Bydd cadarnhad ysgrifenedig o ddyddiad cynhyrchu'r trydan cyntaf o'r datblygiad yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol heb fod yn hwyrach nag 1 mis calendr ar ôl y digwyddiad.

3. Bydd y tyrbinau, y mynediad i'r safle a'r llwybr yn cael eu codi yn y safleoedd a nodwyd yn y cynlluniau a gyflwynwyd. Caniateir amrywiad ar y safleoedd a nodwyd i'r tyrbinau, hyd at 5 metr, ar yr amod na fydd y tyrbinau'n cael eu symud yn agosach o gwbl i unrhyw gloddiau presennol. Ar gyfer unrhyw amrywiad sy'n fwy na 5 metr, bydd gofyn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

4. Mae'r caniatâd hwn yn berthnasol i godi 2 dyrbin gwynt 3 llafn yn unig fel y'u disgrifiwyd yng nghynlluniau a lluniadau'r cais, gydag uchder mwyaf i flaen y llafnau'n 46.3m o lefel wreiddiol y ddaear.

5. Bydd gorffeniad tyrrau, both a llafnau'r tyrbinau'n orffeniad semi-mat. Bydd llafnau a nasél y tyrbinau'n RAL 9003 Signal White a bydd eu tyrau'n RAL 9016 Traffic White, neu fel y cymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith i'w codi ar y safle.

6. Bydd y caban(au) cyfarpar yn cael eu codi'n unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ac ni chaniateir unrhyw gyfarpar ategol allanol ychwanegol sy'n ofynnol mewn cysylltiad â gweithredu'r tyrbinau, fel blychau mesuryddion, offer switsio a llinellau a pholion uwchben, heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

7. Ni fydd unrhyw ran o'r datblygiad yn arddangos unrhyw enw, logo, arwydd, hysbyseb na modd goleuo heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

8. Bydd yr holl geblau rheoli a cheblau trydan yn cael eu gosod dan y ddaear.

9. Bydd yr holl lwybrau mynediad dros dro i'r gwaith adeiladu a safle'r gwaith adeiladu'n cael eu gwaredu a bydd y tir yn cael ei adfer i'w broffil a'i gyflwr blaenorol cyn pen 6 mis o ddyddiad cynhyrchu'r trydan cyntaf o'r datblygiad.

10. Ni fydd unrhyw ddeunyddiau adeiladu'n cael eu storio ar yr hawl tramwy cyhoeddus, ni fydd unrhyw newidiadau i wyneb yr hawl tramwy nac unrhyw rwystrau ychwanegol (e.e. gatiau) yn cael eu gosod ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus, nid rhai dros dro na rhai parhaol. Trefnir symud cerbydau mewn modd nad yw'n ymyrryd â defnydd y cyhoedd o'r hawl tramwy.

CYN DECHRAU

11. Ni fydd unrhyw waith yn dechrau ar y safle nes bod cynllun rheoli coetir wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, a bydd y datblygiad wedyn yn cael ei weithredu'n llwyr yn unol â'r manylion cymeradwy hynny oni chymeradwywyd dewis arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn flaenorol.

12. Ni fydd y sŵn o'r tyrbinau'n uwch na 35Db$_{LA90,10MIN}$ ar gyfer cyflymderau gwynt hyd at 10m/e ar 10m o uchder pan gânt eu mesur yn gronnus mewn maes rhydd yn y derbynnydd agosaf sensitif i sŵn yn unol ag ETSU-R-97.

13. Os ceir cwynion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am sŵn y gellir ei briodoli i weithredu'r tyrbinau, ac ar ôl ymchwiliad cychwynnol gan yr Awdurdod i asesu bod cwyn felly wedi'i chyfiawnhau:
    a) Bydd yr Awdurdod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd am y gŵyn.
    b) Cyn pen mis o gael yr hysbysiad gan yr Awdurdod, bydd yr ymgeisydd yn trefnu, ar ei draul ei hun, asesiad sŵn gan ymgynghorwyr acwstig annibynnol, yn unol â chyfarwyddyd i'w osod gan yr Awdurdod, i ganfod a ydy telerau Amod 12 wedi'u bodloni.
    c) Bydd copi o'r asesiad sŵn a gynhaliwyd yn unol â b) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod heb fod yn hwyrach na deufis o ddyddiad yr hysbysiad.

14. Os canfyddir bod y sŵn sy'n briodoladwy i'r naill dyrbin neu'r llall neu'r ddau dyrbin yn fwy na'r lefelau a osodwyd yn Amod 12, bydd mesurau lliniaru i sicrhau cydymffurfiad ag Amod 12 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cytuno'n ysgrifenedig gyda'r awdurdod hwnnw, a'u gweithredu cyn pen 3 mis. Os nad oes mesurau lliniaru wedi'u gweithredu cyn pen 3 mis, bydd y tyrbinau'n cael eu cau ac ni fyddant yn dechrau gweithredu eto nes bod y mesurau lliniaru ar waith.

15. I gynorthwyo ymchwiliadau i gwynion ac effaith gronnus, bydd yr ymgeisydd yn diffodd y tyrbin(au) dros dro (eu brecio i atal y rotorau) i hwyluso ymchwiliadau sŵn sy'n cael eu cynnal mewn mannau cyfagos, pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gofyn yn ysgrifenedig am hynny.

16. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael cwynion a gyfiawnheir am gysgodion symudol gan unrhyw annedd meddianedig a oedd yn bodoli neu a oedd wedi'i ganiatáu pan roddwyd y caniatâd hwn, bydd y datblygwr yn cael gwybod am hynny'n ysgrifenedig. Bydd mesurau lliniaru'n cael eu cytuno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u gweithredu cyn pen 3 mis o'r hysbysiad, i reoli, ailgyfeirio, neu ddiffodd y tyrbin(au) nes bod yr amodau sy'n achosi'r effeithiau cysgodion symudol hynny wedi darfod.

17. Os bydd y naill neu'r llall o'r tyrbinau gwynt a ganiateir drwy hyn yn peidio â gweithredu am 6 mis o gyfnod parhaus, bydd y tyrbin(au) gwynt a'r cyfarpar ategol yn cael eu datgysylltu a'u symud o'r safle, a bydd y sylfeini'n cael eu gwaredu o leiaf i 1.0m o ddyfnder islaw lefel y ddaear, a bydd y tir yn cael ei adfer i'w broffil a'i gyflwr blaenorol cyn pen 6 mis o ddiwedd y cyfnod 6 mis heblaw y cytunir fel arall â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

18. Heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn i 25 mlynedd o gyfnod gweithredol y caniatâd hwn ddod i ben, bydd cynllun ar gyfer adfer y safle i'w broffil a'i gyflwr blaenorol, gan gynnwys datgysylltu a symud pob elfen uwchlaw lefel y ddaear, a gwaredu sylfeini tyrbin i lawr o leiaf i 1.0m o ddyfnder islaw lefel y ddaear, yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei weithredu cyn pen 12 mis o ddyddiad dod i ben y caniatâd cynllunio a ganiateir drwy hyn.

Y rhesymau dros yr amodau yw:

1. Cydymffurfio â darpariaethau Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990.

2. Osgoi amheuaeth ac er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar ddefnyddiau tymor hwy'r tir.

3. Osgoi amheuaeth, er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar y datblygiad ac er budd amwynder preswyl a chadwraeth natur.

4. Osgoi amheuaeth ac er budd amwynder gweledol.

5. Osgoi amheuaeth ac er budd amwynder gweledol.

6. Osgoi amheuaeth ac er budd amwynder gweledol.

7. Er budd amwynder gweledol.

8. Er budd amwynder gweledol a chadwraeth natur.

9. Er budd amwynder gweledol.

10. Er budd diogelu hawliau tramwy cyhoeddus

11. Er budd amwynder gweledol.

12. Er budd amwynder meddianwyr eiddo preswyl yn yr ardal.

13. Sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os bydd cwynion ac er budd amwynder meddianwyr eiddo preswyl yn yr ardal.

14. Caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar y datblygiad ac er budd amwynder meddianwyr eiddo preswyl yn yr ardal.

15. Sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle i fonitro ac asesu sŵn o’r tyrbin os bydd cwynion, ac er budd amwynder meddianwyr eiddo preswyl yn yr ardal.

16. Er budd amwynderau meddianwyr eiddo preswyl yn yr ardal.

17. Sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle i adfer y safle, er budd amwynder gweledol.

18. Sicrhau adfer y safle yn y tymor hir, er budd amwynder gweledol.

**NODYN I’R YMGEISYDD:**

Tynnir eich sylw i’r canlynol:

- Nodiadau Ategol Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych Rhifau 1,3,4,5 a 10
- Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 –Ffurflen Rhan N
- Nodyn Cyfarwyddyd “Cyngor Safonol” Asiantaeth yr Amgylchedd i Ddatblygwyr

<u>Hawliau Tramwy Cyhoeddus</u>
Rhaid bob amser sicrhau diogelwch yr aelodau o’r cyhoedd sy’n defnyddio’r hawl tramwy; os bydd angen cau’r Llwybr dros dro ar sail diogelwch yn ystod y gwaith adeiladu, bydd gofyn i’r datblygiad wneud cais am gau 6 wythnos cyn bod unrhyw waith yn dechrau. Fe’ch cynghorir i gysylltu â Tania Evans yn yr Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus i drafod posibilrwydd cau dros dro ar 01824 706923.

<u>Y Weinyddiaeth Amddiffyn</u>
Atgoffir chi fod angen rhoi gwybod i’r Weinyddiaeth Amddiffyn am:

- ddyddiadau dechrau a gorffen y gwaith adeiladu;
- taldra mwyaf y cyfarpar adeiladu; a
- lledred a hydred y tyrbin.

Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Amddiffyn: MOD Safeguarding, Defence Infrastructure Organisation, Kingston Road, Sutton Coldfield, West Midlands, B75 7RL
Rhif Ffôn: 0121 311 3781 Ffacs: 0121 311 2218 E-bost: DIO-Safeguarding-Wind@mod.uk

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn penderfynu rhoi caniatâd cynllunio i’r cynnig i ddatblygu 2 dyrbin yn unol â chais cynllunio 07/2012/0539 a hwnnw’n destun:

(a) Yr amodau a nodir yn Adran 3 o’r adroddiad hwn (yn destun unrhyw ddiwygiadau sy’n ofynnol gan y Pwyllgor)

(b) Cwblhau’n foddhaol Ymgymeriad Unochrog / Cytundeb Adran 106 o ran y cynnig o daliad(au) Budd Cymunedol i Gyngor Cymunedol Llandrillo.